# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS GORFFENNAF 2020:**
**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom a pawb yn ei gartref yn defnyddio ei gyfrifiadur neu ei ffôn** am 7 y.h. nos Fercher 15 Gorffennaf 2020**.** Estynwyd croeso i'r aelodau a diolchwyd i TT am drefnu'r ochr dechnegol.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Olwen Gwilym, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans, Iwan Harding,

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau 17 Mehefin 2020 fel rhai cywir a threfnwyd i'r Cadeirydd ei harwyddo. Cynnig ac eilio: HS / TT.

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Defaid Crwydrol:***
Defaid yn dal yn broblem, bydd angen mynd ar ôl yr Heddlu eto.
***2. Cynllun Cyfaill:***
Cadw'r ffôn i fynd er nad oess fawr ddim galwadau bellach.
***3. Seddi gwag:***
Cafwyd ymateb gan ddwy ferch i'r hysbyseb seddi gwag. Llinos Haf Pritchard yn Ward Peris a Claudia O'Donnell yn Ward Padarn. Cytunwyd yn unfrydol i'w cyfethol yn aelodau, ac i hysbysebu eto yr un sedd wag sydd ar ôl yn Ward Padarn.
***4. Agor y Mynyddoedd:***
Yn raddol mae'r bobl yn dychwelyd yn ôl i'r ardal wedi'r cyfyngiadau mawr a fu, ond fe ragwelir problemau yn sicr ar ôl i dai bwyta, tafarnau a gwestai agor eu drysau ac i bobl ddylifo'n ôl. Rhagwelir problemau parcio yn sicr. Yn ôl Cyngor Gwynedd (CG) roedd nifer o fudiadau a threfnwyr wedi holi a fyddai'n bosibl ail drefnu digwyddiadau a ddilewyd oherwydd y cyfyngiadau. Ar ran y Cyngor dywedwyd yn glir a phendant na fyddai yr ardalwyr yn dymuno hynny.
***5. Llinellau Melyn:***
Cafwyd addewid gan CG y byddai llinellau melyn yn cael ei hail baentio'n fuan lle'r oedd trwsio a chlytio wedi eu dileu.
***6 Lampau Stryd:***
Er i'r Clerc gysylltu gyda CG a chael sicrwydd a dyddiad i'r gwaith gael ei gwblhau ac i frigau gael eu clirio mae cwynion o hyd fod y goleuadau wedi yn eu cuddio. Gofynnwyd am bennod ac adnod ac addawodd BH gysylltu a'r Clerc.
***7. Chwyn:***
Wnaed dim ynglyn a'r chwyn ar y Stryd Fawr. Roedd Eric Baylis wedi mynd i'r afael a'r mater ac wedi gwneud llawer o waith ychwanegol hefyd yn tacluso o gwmpas y pentref. Penderfynwyd anfon gair i ddiolch iddo. Yn sgil y trafod mynegwyd siom nad oedd mwy o fusnesau'r Stryd wedi ymdrechu i gadw o gwmpas eu hadeiladau yn daclus. Addawodd BH, fel cynrychiolydd y Cyngor ar y Grwp Datblygu, gael gair am hyn a'r ysgrifennydd.
***8. CG a diogelwch iechyd ar y Stryd:***
• Adroddwyd bod KMJ i gyfarfod gyda swyddogion CG i drafod sut i gadw cerddwyr yn ddiogel rhag y Covid ar y strydoedd. Awgrymwyd mai da o beth fyddai ystyried cael y drafnidiaeth i deithio i un cyfeiriad er mwyn rhoi mwy o le i gerddwyr.
• Nodwyd fod llawer o bobl wedi eu gweld yn ciwio am hufen ia ar y Stryd Fawr gan orfodi cerddwyr eraill i'r ffordd. Roedd llawer o'r bobl yn y ciw yn anystyriol o gadw pellter diogel rhwng unigolion.
• Bu ymghynghori hefyd ynglyn â chau Stryd y Farchnad i drafnidiaeth er mwyn caniatau i gaffi Pete's Eats osod byrddau allan ar y palmant a'r stryd. Yn yr ymateb a gasglodd y Clerc oddi wrth yr aelodau dywedwyd y byddai angen sicrhau mynediad i gefn tai a busnesau'r Stryd Fawr o Stryd y Farchnad, ac na ddylid rhoi caniatad onibai y gellid sicrhau mynediad rhwydd i gerddwyr ac nad oedd gwrthwynebiad gan gymdogion.

**5 MATERION ERAILL:**
***1. Cae UEFA:***
Roedd rhai o'r farn bod y cae angen ei gau, ac nad oedd yn ddiogel. Addawodd y Clerc edrych arno.

**6 GOHEBIAETH:**
***1. Torri gwair:***
Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Clerc ar ran Cyngor Llandwrog yn cwyno am safon gwasanaeth torri gwair CG yr haf yma yn ogystal a hafau blaenorol. Yn dilyn y cwynion yma mae'n debyg y bydd swyddogion CG yn trafod effeithiolrwydd y gwasanaeth gyda'r cynghorau lleol yr Hydref yma, ond mae Cyngor Llandwrog yn galw ar CG i drosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r cynghorau lleol erbyn 2021. Mae'r llythyr yn holi am farn cynghorau Arfon. Oherwydd prinder amser penderfynwyd gadael y mater ar y Bwrdd tan fis Medi.
Yn Llanberis roedd glaswellt glannau'r llyn angen ei dorri ynghyd ac ochrau y ffordd tuag at Pentre Castell a rhai mannau eraill.

**7 CYNLLUNIO:**
• **C20/0410/15/CC** - *Cais ar gyfer torri a gwneud gwaith i 2 goeden dderw a thorri dwy goeden dderw sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed (3/TPO/A84)* - **Plot 6, Trem y Chwarel, Ffordd Ty Du, Llanberis -** yn gwrthwynebu gan i'r tai yma gael caniatad cynllunio gyda'r coed yn cael eu gwarchod.
• **C20/0473/15/CC** - *Cais ar gyfer torri a gwneud gwaith i goed (Onnen a Derw di-goes) sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed (3/TPO/A45)* - **Frondeg Uchaf, Llanberis -** dim gwrthwynebiad os yw'r gwaith yn angenrheidiol.

**8 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Fehefin, 2020**
**Cyfrif Cyfredol**: £14,302.91 **Cyfrif Cadw**: £5,365.56

**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**

| | |
|---|---|
| Dim taliadau | |
| **CYFANSWM … …** | **£0.00** |

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/05/2020 a 28/06/2020:**

| **Dyddiad** | **Tarddiad** | **Swm** |
|---|---|---|
| 28 Mehefin | Llog | 0.04 |
| **CYFANSWM … …** | | **£0.04** |

Cynnig ac eilio: IO / BH

**9. CYFARFOD NESAF:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf yn Y Ganolfan os bydd amgylchiadau yn caniatau. 7 y.h. Nos Fercher 9 Medi, 2020.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**

Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos Dyddiad 9 Medi 2020.

***2/2***